

# Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh)

## Penderfyniad ar y cynnig i sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg ac i adleoli Ysgol Gynradd Pilgwenlli

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth gytbwys i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a hyrwyddo dulliau gwell o weithio yn unol â chydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a phedwar paramedr y drafodaeth ynghylch tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn CTC i'r Cyngor 2013).

**Cwblhawyd gan:** Richard Sexty      **Swydd:** Swyddog Trawsnewid Addysg

**Pennaeth Gwasanaeth:** Sarah Morgan      **Dyddiad:** 02/04/2020

**Rwy'n cadarnhau bod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cymeradwyo cynnwys yr asesiad hwn**

**Ydw / Nac ydw**

**Pan gwblhewch yr AEDCh hwn, eich cyfrifoldeb chi fydd ei gyflwyno i**  
impact.assessment@newport.gov.uk

### 1. Enw a disgrifiad o'r polisi / cynnig a asesir. Amlinellwch ddiben y polisi.

Y diben yw penderfynu ar gynnig ad-drefnu ysgolion i sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd â dau ddosbarth mynediad (60 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn) ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Bydd yr ysgol yn agor mewn lleoliad dros dro ar hen safle Ysgol Babanod Lodge Hill Caerllion fel egin ysgol ym mis Medi 2021; gan ddechrau gydag 1 dosbarth meithrin o 24 lle ac 1 dosbarth derbyn o 30 lle. Y flwyddyn ganlynol bydd yr ysgol yn aros ar y safle dros dro gydag 1 dosbarth meithrin, 1 dosbarth derbyn, ac 1 dosbarth blwyddyn un. Ym mis Medi 2023 bydd yr ysgol yn symud i safle presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli, a fydd yn dod yn lleoliad parhaol ar gyfer yr ysgol newydd. O fis Medi 2023 bydd nifer derbyn y Dosbarth Derbyn yn cynyddu i 60 o ddisgyblion (2 ddosbarth) bob blwyddyn, a bydd Canolfan Adnoddau Dysgu (CAD) 10 lle yn cael ei sefydlu.

Mae grŵp blwyddyn â 78 o blant yn Ysgol Gynradd Pilgwenlli ar hyn o bryd; fodd bynnag, gyda rhagor o blant yn byw yn yr ardal ac yn dymuno mynychu'r ysgol hon, bydd angen gwneud yr ysgol yn fwy. Fodd bynnag, nid oes mwy o le ar ôl yn yr ysgol i adeiladu ystafelloedd dosbarth ychwanegol, felly penderfynwyd symud Ysgol Gynradd Pilgwenlli i leoliad newydd.

Lai na milltir i ffwrdd o Ysgol Gynradd Pilgwenlli, mae darn mawr o dir a elwir yn 'safle Whiteheads'. Mae ganddo ganiatâd cynllunio i adeiladu tai newydd a thir a all ddarparu ar gyfer ysgol newydd. Bydd yr ysgol newydd yn ddigon mawr i dderbyn 3 dosbarth ym mhob grŵp blwyddyn (30 o ddisgyblion ym mhob dosbarth, 90 fesul grŵp blwyddyn).

Cynigiwyd y bydd Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn symud i mewn i adeilad newydd yr ysgol, a fydd yn ddigon mawr i dderbyn ceisiadau ychwanegol gan ddisgyblion ac yn cynnig mwy o swyddi addysgu a chefnogi. Ni fyddai disgyblion Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn gallu symud i'r safle newydd tan fis Ionawr 2023, a byddai adeilad presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli ar gael wedyn i'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd symud i mewn. Bydd 6 mis ar gael i adeiladwyr adnewyddu adeilad presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn barod ar gyfer yr ysgol gynradd Gymraeg newydd i symud yno ym mis Medi 2023.

Mae cyhoeddi hysbysiad statudol o 2 Mawrth i 30 Mawrth 2020 wedi galluogi Cyngor Dinas Casnewydd i weld a oes unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig.

## **2. Amlinellwch sut rydych chi wedi/sut byddwch chi yn cynnwys rhanddeiliaid y bydd y polisi/cynnig hwn yn effeithio arnynt**

Datblygwyd y cynnig hwn mewn ymateb i adborth a gafwyd drwy'r Fforwm Addysg Gymraeg (WEF) a'r grŵp hybu'r Gymraeg mewn perthynas â lleoliad y 3 ysgol gynradd Gymraeg bresennol a'r angen i ddarparu cynnig cyfrwng Cymraeg hygyrch i bob rhan o'r ddinas. Mae'r cynnig hefyd yn dilyn aeddfedrwydd yr egin ysgol gynradd Gymraeg ddiwethaf, Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon, yn 2017. Gwneir y cynnig yn bosib drwy gyhoeddi cynnig llwyddiannus ar gyfer cyllid drwy Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.

Roedd y cyfnod ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Bydd cyfuniad o ddulliau ymgynghori ar-lein ac wyneb yn wyneb yn sicrhau y gall y rhai y bydd y cynnig yn effeithio arnynt yn fwyaf uniongyrchol gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau.

Trefnwyd pum digwyddiad galw heibio, gyda swyddogion y Cyngor wrth law i esbonio'r cynigion yn fanylach ac i ateb unrhyw gwestiynau. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad galw heibio yn Ysgol Gynradd Pilgwenlli lle roedd tua 80 o randdeiliaid yn bresennol dros y ddwy sesiwn. Roedd cyfieithwyr ar y pryd wrth law i gynorthwyo gyda'r ieithoedd canlynol: Hindi, Wrddw, Pwnjabeg, Arabeg, Bengaleg, Tsieceg, Pwyleg, Slofaceg, Cwrdeg, Somalieg a Chymraeg. Cafwyd 23 o ymatebion ysgrifenedig i'r digwyddiadau hyn. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed a dim ond un teulu ddaeth i gyd. Darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg yn y ddau ddigwyddiad hyn. Cynhaliwyd pumed digwyddiad galw heibio yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion, lle darparwyd cyfieithu ar y pryd Cymraeg hefyd, er nad oedd unrhyw randdeiliaid yn bresennol yn y sesiwn hon.

Hefyd gellid cyflwyno sylwadau a chwestiynau gan ddefnyddio ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd y ffurflen hon ar gael yn y sesiynau galw heibio ac ar wefan y Cyngor. Hefyd rhannodd y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol megis Twitter a Facebook wybodaeth am y newidiadau arfaethedig.

Trefnwyd sesiynau yn yr ysgolion yr effeithiwyd arnynt a oedd yn cynnwys y cyngor ysgol, gan roi cyfle i'r disgyblion leisio'u barn ar y cynnig. Mae eu sylwadau yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor.

Roedd Crynodeb Bob Dydd i Blant a Phobl Ifanc o'r ddogfen ymgynghori ar gael gan Gyngor Dinas Casnewydd. Roedd copïau ar gael hefyd yng Ngŵyl Maendy a'r Sblash Mawr. Roedd y fersiwn hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg a chyfieithwyd hi i wyth o ieithoedd cymunedol: Bengaleg, Wrddw, Arabeg, Slofaceg, Cwrdeg – Sorani, Cwrdeg – Bhadini, Somalieg, a Rwmaneg ar gyfer teuluoedd disgyblion yn Ysgol Gynradd Pilgwenlli.

Hefyd dosbarthwyd llythyr i rieni 2,000 o blant sy'n byw yng Nghasnewydd a aned rhwng 1 Medi 2016 a 31 Awst 2017 er mwyn rhoi gwybod iddynt am y cynnig ar yr adeg pan fyddent yn gwneud eu cais am le Meithrin ar gyfer mis Medi 2020.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, ystyriodd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd y farn a fynegwyd ac mae wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig. Cyhoeddwyd hysbysiad statudol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd, gyda chopïau wedi eu postio ym mhrif fynedfeydd safleoedd yr ysgolion perthnasol ac yn cael eu rhannu â rhanddeiliaid drwy e-bost.

Roedd y cyfnod hysbysiad statudol yn cynrychioli'r cyfle i bobl gyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynnig. Gellid gwneud gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig a'u hanfon i'r Swyddog Gwybodaeth Addysg a Datblygu, Ystafell 425w, Canolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR neu drwy e-bostio [school.reorg@newport.gov.uk](mailto:school.reorg@newport.gov.uk)

Parodd y cyfnod hysbysu statudol am 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, gan alluogi pobl i fynegi eu barn o ran cefnogi neu wrthwynebu'r cynigion. Oherwydd na chafwyd gwrthwynebiadau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylid bwrw ymlaen neu beidio.

### **3. Pa wybodaeth/tystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? e.e. barn, anghenion, defnydd o wasanaethau ac ati. Nodwch yr holl dystiolaeth sy'n berthnasol yn eich barn chi.**

Gwnaeth y Cod statudol amlinellu'r rhanddeiliaid allweddol yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r broses hon sy'n cynnwys ysgolion, rhieni, aelodau etholedig, cynghorau cymuned ac undebau llafur. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ac mae'r Cyngor wedi nodi ac ychwanegu at hyn o ganlyniad i adborth a gafwyd ynghylch cynigion blaenorol a bydd hefyd yn ymgynghori â Chanolfan Serennu; SNAP Cymru a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent. Cynhaliwyd ymgynghoriadau â grwpiau rhanddeiliaid gyda disgyblion o'r ysgolion yr effeithiwyd arnynt, drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyngor ysgol a thrwy holiaduron. Rhoddodd hyn y cyfle i ddisgyblion leisio eu barn ar y cynnig.

Mae ward Pilgwenlli yn cynrychioli tua 2.96% o ardal gyfan Casnewydd ac mae'n gartref i 5.3% o gyfanswm poblogaeth y ddinas. Mae ffigurau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y ward yn dangos twf yn y boblogaeth yn yr ardal o 46% rhwng 2011 a 2015 o gymharu â chynnydd o 7.9% yng Nghasnewydd gyfan. Bu'r twf yn y boblogaeth yn bennaf ymysg y rhai o oedran gweithio (16-64) er bod nifer y plant 0-15 oed hefyd wedi cynyddu gan 30% dros y cyfnod. Mae nifer y bobl o oedran ymddeol wedi gostwng ychydig.

O Gyfrifiad 2011, mae grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cynrychioli 39.5% o boblogaeth Pilgwenlli, o gymharu â dim ond 10% o boblogaeth Casnewydd yn gyffredinol. Mae'r gymuned yn amrywiol iawn, gyda 24 o ieithoedd cartref gwahanol yn cael eu cofnodi ar gyfer 678 o ddisgyblion Ysgol Gynradd Pilgwenlli.

Mae diweithdra hefyd yn uwch ym Mhlgwenlli, sef 7.3% o gymharu â chyfartaledd Casnewydd (5.3%) a chyfartaledd Cymru (4.3%). Adlewyrchir lefel yr anfantais economaidd yn yr ardal gan gyfran y disgyblion yn yr ysgol sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) sef 33.8% o gymharu â chyfartaleddau Casnewydd a Chymru o 19.2% a 18.4% yn y drefn honno.

Mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu yn sgil cynnydd yn y nifer o leoedd yn ein 3 ysgol gynradd Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac aeddfedrwyd yr olaf o'r egin ysgolion, sef Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon, ym mis Medi 2017. Llywiwyd y cynnig hefyd gan farn a gyflwynwyd yn yr arolwg rhanbarthol dewis rhieni o ran y Gymraeg a sylwadau a wnaed gan aelodau Fforwm Addysg

Gymraeg Casnewydd a oedd yn awgrymu na fyddai'r capasiti presennol yn ddigonol i fodloni'r galw yn y dyfodol a thynnwyd sylw hefyd at y diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghanol a gorllewin y ddinas. Disgwylir i'r cynnig ysgogi a darparu ar gyfer galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn dilyn cyhoeddi hysbysiad statudol, gan na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylid bwrw ymlaen neu beidio. Mae'r AEDCh wedi'i ddiweddarau ar y cam hwn.

#### 4. Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Y naill	
<b>Oedran</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd yn cefnogi'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Dinas Casnewydd sydd wedi bod yn tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3-11 oed yn ardal Caerllion a allai gynyddu'r cyfleoedd i rieni a phlant yn yr ardal hon fynychu addysg cyfrwng Cymraeg.
<b>Anabledd</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cydnabod, er bod rhywfaint o gydblecthu rhwng anabledd ac Anghenion Addysgol Arbennig, nad yw'r ddwy yn gyd-ddibynnol a gallant fod yn annibynnol ar ei gilydd. Fodd bynnag, er hwylustod cyfeirio, mae'r effaith bosibl ar blant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig wedi'i chynnwys yn yr adran hon.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cyfleusterau Canolfan Adnoddau Dysgu ym mhob adeilad ysgol newydd gan fod hyn yn cefnogi agwedd fwy cynhwysol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff cyfleuster CAD 10 lle ei sefydlu yn yr ysgol gynradd Gymraeg newydd. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth o'r fath ar gael o fewn yr ysgolion Cynradd cyfrwng Cymraeg eraill ar draws Casnewydd, a hwn fydd CAD gyfrwng Cymraeg gyntaf Casnewydd.</p> <p>Bydd yr ysgol newydd yn gwbl hygyrch i ddisgyblion â nam symudedd a namau synhwyrdd. Yn ystod y gwaith adnewyddu, rhoddir ystyriaeth i ffyrdd o wella hygyrchedd adeilad presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli.</p>
<b>Ailbennu rhywedd/trawsryweddol</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchoddedig hon). Ni fydd cyfleusterau toiled a ddarperir fel

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Y naill	
				rhan o ddatblygiad y ddwy ysgol yn cael arwyddion sy'n benodol i ryw, a gellir eu dyrannu yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau (e.e. fesul dosbarth), fodd bynnag, yr ysgol unigol sydd i benderfynu sut y caiff y cyfleusterau hyn eu defnyddio.
<b>Priodas neu bartneriaeth sifil</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchoddedig hon.
<b>Beichiogrwydd neu famolaeth</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	I ddarpar rieni, rhagwelir y bydd ysgol Gymraeg ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar y dewisiadau addysg sydd ar gael yn lleol.
<b>Hil</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Mae Pilgwenlli yn gymuned amrywiol, gyda chyfran uchel o drigolion sy'n bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. O fewn yr Ysgol Gynradd bresennol, mae 23% o 677 o fyfyrwyr yn rhestru eu hiaith gyntaf fel Saesneg, gyda 23 o ieithoedd eraill yn cael eu siarad gan ddisgyblion. Nodir bod gan 84% o ddisgyblion Saesneg fel iaith ychwanegol, o'i gymharu â chyfartaledd o 18% ar draws yr holl ysgolion yng Nghasnewydd.</p> <p>Ieithoedd eraill a siaredir amlaf yw Bengaleg (18%), a Punjabi (17%). Mae 88% o ddisgyblion Ysgol Gynradd Pilgwenlli o gefndir lleiafrifoedd ethnig, o'i gymharu â chyfartaledd o 26% yng Nghasnewydd.</p> <p>Gellir dod i'r casgliad felly y bydd adleoli'r Ysgol Gynradd yn cael effaith anghymesur ar ddisgyblion a rhieni o gefndir pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd â Saesneg fel ail iaith, neu ddim sgiliau iaith Saesneg. Mae gan hyn y potensial i fod yn effaith negyddol pe na bai'r broses ymgynghori yn cael ei chynllunio i fod yn gwbl gynhwysol a hygyrch.</p> <p>Cydnabyddir bod teuluoedd sy'n siarad Saesneg fel ail iaith yn cael eu tangynrychioli'n gymharol mewn addysg cyfrwng Cymraeg, gyda llai na 10% o blant oed cynradd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn dod o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, o'i gymharu â bron i 24% o ddisgyblion ar draws holl ysgolion Casnewydd. Mae hyn yn gyfle cadarnhaol i annog addysg ddwyieithog ymhlith y cymunedau hyn, ond mae'n rhaid i waith hyrwyddo priodol gefnogi hynny.</p> <p>Mae'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei datblygu mewn ardal lle mae nifer sylweddol o deuluoedd sy'n siarad</p>



Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Y naill	
				<p>ieithoedd ar wahân i Saesneg yn byw. Er mai isel fu'r defnydd hanesyddol o addysg cyfrwng Cymraeg o'r ddemograffeg hon, dylid ystyried cefnogi plant nad ydynt yn siarad Saesneg neu sydd eisoes â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.</p> <p>Dylid nodi, yng Nghasnewydd, nad yw'r rhan fwyaf o blant mewn lleoliadau addysg cyfrwng Cymraeg yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, felly mae arferion addysgu yn y lleoliadau hyn eisoes yn addas iawn i fyfyrwyr nad ydynt yn siarad yr iaith y maent yn cael eu haddysgu drwyddi. Yn ystod cyfnod datblygu'r ysgol newydd, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cyflogi Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg a fydd yn ymgysylltu â chymunedau amrywiol a lleiafrifol i ddeall yn well y rhwystrau gwirioneddol neu ganfyddedig i addysg cyfrwng Cymraeg, gan weithio'n agos gyda Gwasanaeth Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent sy'n cynnig cymorth SIY yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg i archwilio opsiynau cymorth posibl, a nodi arfer gorau mewn rhannau eraill o Gymru sy'n wynebu heriau tebyg.</p>
<b>Crefydd neu Gred neu ddiffyg cred</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg yw'r ysgol newydd. Nid yw'r cynnig yn cynnig yr opsiwn o addysg sy'n seiliedig ar ffydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, bydd yr ysgol yn dilyn pob agwedd ar y cwricwlwm addysgu newydd gan gynnwys addysg grefyddol, amrywiaeth a lles. Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchoddedig hon.
<b>Rhyw</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchoddedig hon
<b>Cyfeiriadedd Rhywiol</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchoddedig hon
<b>Y Gymraeg</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd yr ysgol gynradd newydd yn ysgol gyfrwng Cymraeg, sy'n golygu y bydd yn darparu nifer fawr o leoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn ardal Casnewydd. Mae'r cynnig yn rhoi cyfraniad cryf i siarter Llywodraeth Cymru i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Bydd sefydlu ysgol Gymraeg newydd yn dod ag effaith gadarnhaol i ddarparu rieni sydd wedi ystyried anfon eu plentyn i ysgol gyfrwng Cymraeg. Bydd cynnydd yn y lleoedd sydd ar gael a darpariaeth newydd yng nghanol/gorllewin y


Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Y naill	
				<p>ddinas, sydd wedi cael ei nodi fel ardal darged ar gyfer twf oherwydd y diffyg darpariaeth addysg gyfrwng Cymraeg yn y lleoliad ar hyn o bryd.</p> <p>Mae'n bosibl yr effeithir yn gadarnhaol ar rieni sy'n anfon eu plant i ysgol gynradd Gymraeg ar hyn o bryd gan y gallai'r ysgol newydd fod yn fwy cyfleus, o ran lleoliad er mwyn i'r rhiant anfon ei blentyn/plant iddo. Bydd rhieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn cael mwy o ddewis o ysgolion cynradd ar gyfer eu plant, a gall cyflwyno pedwaredd ysgol cyfrwng Cymraeg hefyd leihau'r amser teithio wrth i ddalgylchoedd gael eu hailalinio yn briodol.</p> <p>Mae'r cynigion yn cefnogi targed y Cyngor i gynyddu nifer y plant oed cynradd sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel y nodir yn ei strategaeth 5 mlynedd, yn ogystal â'r Nod Lles o greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.</p> <p>Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cydnabod yr her barhaus o recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg i swyddi allweddol, gan gynnwys rolau sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Rhagwelir y bydd y cynlluniau ar gyfer cychwyn fesul tipyn i'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd, a fydd yn galluogi twf graddol, yn helpu i sicrhau bod y broses recriwtio yn llwyddiannus ac yn lleihau unrhyw effaith bosibl ar ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb i alluogi pobl i gymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriad drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod prosesau yn adlewyrchu hyn, gan ganiatáu cyfraniad teg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.</p>

## 5 Sut mae eich cynnig wedi ymwreiddio a blaenoriaethu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei ddatblygu?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
 <p>Long Term</p> <p>Cydbwyso angen tymor byr gydag anghenion tymor hir</p>	<p>Y diben yw penderfynu ar gynnig ad-drefnu ysgolion i sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd â dau ddosbarth mynediad (60 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn) ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Bydd yr ysgol yn agor mewn lleoliad dros dro ar hen safle Ysgol Babanod Lodge Hill Caerllion fel egin ysgol ym mis Medi 2021; gan ddechrau gydag 1 dosbarth meithrin o 24 lle ac 1 dosbarth derbyn o 30 lle. Y flwyddyn ganlynol bydd yr ysgol yn aros ar y safle dros dro gydag 1 dosbarth meithrin, 1 dosbarth derbyn, ac 1 dosbarth blwyddyn un. Ym mis Medi 2023 bydd yr ysgol yn symud i safle presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli, a fydd yn dod yn lleoliad parhaol ar gyfer yr ysgol newydd. O fis Medi 2023 bydd nifer derbyn y Dosbarth Derbyn yn cynyddu i 60 o ddisgyblion (2 ddosbarth) bob blwyddyn, a bydd Canolfan Adnoddau Dysgu (CAD) 10 lle yn cael ei sefydlu.</p> <p>Mae grŵp blwyddyn â 78 o blant yn Ysgol Gynradd Pilgwenlli ar hyn o bryd; fodd bynnag, gyda rhagor o blant yn byw yn yr ardal ac yn dymuno mynychu'r ysgol hon, bydd angen gwneud yr ysgol yn fwy. Fodd bynnag, nid oes mwy o le ar ôl yn yr ysgol i adeiladu ystafelloedd dosbarth ychwanegol, felly penderfynwyd symud Ysgol Gynradd Pilgwenlli i leoliad newydd.</p> <p>Lai na milltir i ffwrdd o Ysgol Gynradd Pilgwenlli, mae darn mawr o dir a elwir yn 'safle Whiteheads'. Mae ganddo ganiatâd cynllunio i adeiladu tai newydd a thir a all ddarparu ar gyfer ysgol newydd. Bydd yr ysgol newydd yn ddigon mawr i dderbyn 3 dosbarth ym mhob grŵp blwyddyn (30 o ddisgyblion ym mhob dosbarth, 90 fesul grŵp blwyddyn).</p> <p>Cynigiwyd y bydd Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn symud i mewn i adeilad newydd yr ysgol, a fydd yn ddigon mawr i dderbyn ceisiadau ychwanegol gan ddisgyblion ac yn cynnig mwy o swyddi addysgu a chefnogi. Ni fyddai disgyblion Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn gallu symud i'r safle newydd tan fis Ionawr 2023, a byddai adeilad presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli ar gael wedyn i'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd symud i mewn. Bydd 6 mis ar gael i adeiladwyr adnewyddu adeilad presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn barod ar gyfer yr ysgol gynradd Gymraeg newydd i symud yno ym mis Medi 2023.</p>
 <p>Collaboration</p> <p>Cydweithio i gyflawni amcanion</p>	<p>Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol gyda'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a chafodd ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith. Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu mewn ymateb i sylwadau gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd.</p>



<b>Egwyddor Datblygu Cynaliadwy</b>	<b>A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.</b>
<div data-bbox="233 613 363 770" style="text-align: center;">  <p>Involvement</p> </div> <p data-bbox="145 797 421 898">Cynnwys pawb sydd â diddordeb a cheisio eu barn</p>	<p data-bbox="459 304 1410 439">Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol gyda'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a chafodd ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith. Mae'r rhanddeiliaid canlynol ymhlith y rhai a gymerodd ran fel rhan o'r broses ymgynghori:</p> <ul data-bbox="507 472 1410 1182" style="list-style-type: none"> <li>• Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid Ysgol Gynradd Pilgwenlli, Ysgol Gymraeg Casnewydd, Ysgol Gymraeg Bro Teyrnion ac Ysgol Gymraeg Ifor Hael;</li> <li>• Aelodau staff yn Ysgol Gynradd Pilgwenlli, Ysgol Gymraeg Casnewydd, Ysgol Gymraeg Bro Teyrnion ac Ysgol Gymraeg Ifor Hael;</li> <li>• Aelodau Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion sy'n destun y cynigion;</li> <li>• Estyn;</li> <li>• Unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gellir effeithio arnynt, gan gynnwys y Mudiad Meithrin;</li> <li>• Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;</li> <li>• Unrhyw gorff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol â buddiant;</li> <li>• Comisiynydd y Gymraeg.</li> <li>• Grwpiau'r gymuned leol</li> <li>• Sefydliadau gwirfoddol a grwpiau buddiant</li> </ul>
<div data-bbox="205 1252 357 1431" style="text-align: center;">  <p>Prevention</p> </div> <p data-bbox="145 1440 373 1619">Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu</p>	<p data-bbox="459 1216 1410 1417">Mae'r angen am addysg cyfrwng Cymraeg wedi tyfu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw addysg cyfrwng Cymraeg o fewn ardal Caerllion neu Bilgwenlli. Felly bydd y cynnig o fudd i ddisgyblion a dylai fod ar gael i ddisgyblion sy'n byw yn y ddwy ardal hon. Bydd hyn yn galluogi plant i fynychu ysgol Gymraeg sy'n fwy lleol i'w cartrefi.</p> <p data-bbox="459 1451 1410 1585">Bydd y cynnig yn sicrhau 430 o leoedd ychwanegol i ddisgyblion a fydd yn sicrhau capasiti ar gyfer twf tymor hir cyflymach mewn addysg cyfrwng Cymraeg dros y blynyddoedd i ddod ac o bosibl yn ysgafnhau'r pwysau ar ysgolion eraill.</p>

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
 <p>Ystyried effaith ar bob nod llesiant ar y cyd ac ar gyrff eraill</p>	<p>Bydd ymgynghoriad statudol ffurfiol yn mynd rhagddo a chafodd ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Chymru â chymunedau cydlynol" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Llesiant eraill. Hefyd, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd "I wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfluoedd cyflogaeth" a Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.</p>

## 6 A fydd y cynnig / polisi'n cael effaith anghymesur ar ardal ddaearyddol benodol yng Nghasnewydd?

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i ddarparu addysg gyfrwng Cymraeg ychwanegol ar draws Casnewydd. Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar ddarparu galluedd hirdymor ar gyfer twf yn ardal canol/gorllewin y ddinas. Nodwyd yr ardal hon fel un a fu'n ddiffygiol o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwyddys ei bod hefyd yn cynnwys nifer sylweddol o dai newydd, sy'n awgrymu y bydd poblogaeth disgyblion yr ardal yn cynyddu. Dylai lleoliad yr ysgol leihau'r amser teithio i ddisgyblion sy'n dewis addysg gyfrwng Cymraeg yn y ddinas.

Mae lleoliad dros dro'r ysgol yng Nghaerllion yn rhoi darpariaeth mewn ardal, lle nad oes ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Pan fydd yr ysgol yn symud i safle presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli, bydd disgyblion sy'n mynychu'r ysgol Gynradd Gymraeg newydd o ardal Caerllion yn cael cynnig cludiant am ddim i'r ysgol. Bydd disgyblion ardal Pilgwenlli hefyd yn cael cynnig cludiant am ddim i'r ysgol tra bo'r ysgol wedi'i lleoli dros dro yn ardal Caerllion.

Er bod y cynnig yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth yn ardaloedd Pilgwenlli a Chaerllion, ni ragwelir y bydd unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw ardal ddaearyddol.

## 7 Sut mae'r cynnig / polisi'n perthyn i'r paramedrau trafod ynghylch Tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd?

### Paramedr 1 – Triniaeth gyfartal wrth gydnabod gwahaniaeth

Mae'n orfodol i'r Cyngor ddarparu lleoedd mewn ysgolion yn unol â dewis iaith teuluoedd preswyl (Cymraeg/Saesneg). Mae'r cynnig hwn yn sicrhau bod digon o leoedd i ddisgyblion ar gael i fodloni'r galw am ddarpariaeth yn y ddwy iaith yn y dyfodol.

### Paramedr 2 – Rhwymedigaethau ar y cyd rhwng dinasyddion a'r llywodraeth

Er mai'r awdurdod lleol fydd yn darparu'r ysgol a'r staff, rhaid i'r gymuned ymgysylltu â'r ysgol a pharchu ei rheolau o ran presenoldeb ac ymddygiad. Bydd dinasyddion hefyd yn cael eu hannog i gefnogi'r ysgol yn frwd drwy ddigwyddiadau ac aelodaeth o wahanol gymdeithasau a chyryff.

### **Paramedr 3 - Rhyng-ddibyniaeth a chilyddiaeth o fewn perthnasoedd cymunedol**

Bydd agor Ysgol gynradd Gymraeg newydd yn ardal ethnig amrywiol Pilgwenlli yn cynnig cyfle i ddod â gwahanol rannau o'r gymuned at ei gilydd fel rhanddeiliaid yr ysgol newydd. Bydd hyn yn annog pobl i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol ac wrth archwilio hunaniaeth a diwylliant Cymru. Bydd sefydlu'r ysgol a'i sefydliadau (CRhA, corff llywodraethu ac ati) yn darparu llwyfan ar gyfer ymgysylltiad a chyfranogiad y gymuned.

### **Paramedr 4 – Tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau**

Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau ac mae'n dryloyw ac yn atebol o ran y wybodaeth a ddarperir. Mae'n galluogi dinasyddion i gyfranogi'n effeithiol a democrataidd.

## **8 Gan ystyried yr holl asesiad, beth ellir ei wneud i leihau unrhyw effeithiau negyddol eich polisi a chyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?**

Roedd y cynnig yn destun ymgynghoriad llawn â rhanddeiliaid ac ystyriwyd yr adborth a gafwyd wrth benderfynu ar sut i symud ymlaen.

**Hil:**Nodwyd posibilrwydd o effaith anghymesur negyddol mewn perthynas â'r Nodwedd Warchoddedig. Er mwyn lliniaru hyn, sicrhodd Cyngor Dinas Casnewydd y canlynol:

- Roedd y broses ymgynghori a rhannu gwybodaeth yn gwbl gynhwysol o'r plant a rhieni hynny sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, gan hwyluso sesiynau penodol mewn ystod o ieithoedd cymunedol, a darparu cymorth iaith mewn sesiynau galw heibio lle y bo angen.
- Mae datblygiad yr ysgol cyfrwng Gymraeg newydd yn cydreddeg â gwaith i ddatblygu diddordeb cynaliadwy ac archwaeth am addysg cyfrwng Gymraeg mewn cymunedau o bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan adeiladu ar ymgyrch bresennol Casnewydd, Dod yn Ddwieithog, ac ystyried buddsoddi mewn gweithgareddau eraill sy'n seiliedig ar brojectau.
- Er mai isel fu'r defnydd hanesyddol o addysg cyfrwng Gymraeg o'r ddemograffeg hon, dylid ystyried cefnogi plant nad ydynt yn siarad Saesneg neu sydd eisoes â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.
- Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cyflogi Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg a fydd yn ymgysylltu â chymunedau amrywiol a lleiafrifol i ddeall yn well y rhwystrau gwirioneddol neu ganfyddedig i addysg cyfrwng Gymraeg, gan weithio'n agos gyda Gwasanaeth Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent sy'n cynnig cymorth SIY yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg i archwilio opsiynau cymorth posibl, a nodi arfer gorau mewn rhannau eraill o Gymru sy'n wynebu heriau tebyg.

**Y Gymraeg:** Er mwyn sicrhau bod ymgynghori teg yn digwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae Cyngor Dinas Casnewydd:

- wedi sicrhau bod yr holl ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog
- wedi darparu gwasanaethau cyfieithu mewn sesiynau galw heibio lle y bo'n briodol
- wedi sicrhau bod yr holiadur ymgynghori yn gofyn cwestiynau penodol mewn perthynas ag effaith gadarnhaol neu negyddol bosibl y project ar y cyfle i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg

## 9 Monitro, gwerthuso ac adolygu

Cafodd unrhyw gwestiynau neu sylwadau a wnaed drwy gydol yr ymgynghoriad eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Cafodd yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a chafodd ei ystyried pan benderfynodd y Cyngor ar y ffordd ymlaen. Yn dilyn yr ymgynghoriad, ystyriodd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd y farn a fynegwyd cyn penderfynu p'un a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig neu beidio. Penderfynwyd parhau, a chyhoeddwyd hysbysiad statudol.

Cafodd copïau o'r hysbysiad statudol eu rhannu â rhanddeiliaid a hefyd eu cyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a'u postio ar gatiâu'r ysgolion yr effeithir arnynt. Parodd y cynnod hysbysu statudol am 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, gan alluogi pobl i fynegi eu barn o ran cefnogi neu wrthwynebu'r cynigion. Oherwydd na chafwyd gwrthwynebiadau, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylid bwrw ymlaen neu beidio.

## 10 Cynnwys Pobl

Roedd y broses ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig. Roedd y cynnig ar gael ar-lein yn Gymraeg a Saesneg, drwy wefan Cyngor Dinas Casnewydd, e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol, ac fel copi caled.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pum digwyddiad galw heibio gyda'r bobl hynny y mae'r cynnig yn effeithio arnynt fwyaf, lle roedd swyddogion y Cyngor wrth law i egluro'r cynigion yn fanylach ac i ateb unrhyw gwestiynau: Cynhaliwyd dau ddigwyddiad galw heibio yn Ysgol Gynradd Pilgwenlli lle roedd tua 80 o randdeiliaid yn bresennol dros y ddwy sesiwn. Roedd cyfieithwyr ar y pryd wrth law i gynorthwyo gyda'r ieithoedd canlynol: Hindi, Wrddw, Pwnjabeg, Arabeg, Bengaleg, Tsieceg, Pwyleg, Slofaceg, Cwrdeg, Somalieg a Chymraeg. Cafwyd 23 o ymatebion ysgrifenedig o'r ddau ddigwyddiad hyn. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed a dim ond un teulu ddaeth i gyd. Darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg yn y ddau ddigwyddiad hyn. Cynhaliwyd y pumed digwyddiad galw heibio yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion, lle y darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg hefyd, er nad oedd unrhyw randdeiliaid yn bresennol yn y sesiwn hon.

Hefyd gellid cyflwyno sylwadau a chwestiynau gan ddefnyddio ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd y ffurflen hon ar gael yn y sesiynau galw heibio ac ar wefan y Cyngor. Hefyd rhannodd y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol megis Twitter a Facebook wybodaeth am y newidiadau arfaethedig.

Trefnwyd sesiynau yn yr ysgolion yr effeithiwyd arnynt a oedd yn cynnwys y cyngor ysgol, gan roi cyfle i'r disgyblion leisio'u barn ar y cynnig. Mae eu sylwadau yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor.

Roedd Crynodeb Bob Dydd i Blant a Phobl Ifanc o'r ddogfen ymgynghori ar gael gan Gyngor Dinas Casnewydd. Roedd copïau ar gael hefyd yng Ngŵyl Maendy a'r Sblash Mawr. Roedd y fersiwn hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg a chyfieithwyd hi i wyth o ieithoedd cymunedol: Bengaleg, Wrddw, Arabeg, Slofaceg, Cwrdeg – Sorani, Cwrdeg – Bhadini, Somalieg, a Rwmaneg ar gyfer disgyblion yn Ysgol Gynradd Pilgwenlli.

Hefyd dosbarthwyd llythyr i rieni 2,000 o blant sy'n byw yng Nghasnewydd a aned rhwng 1 Medi 2016 a 31 Awst 2017 er mwyn rhoi gwybod iddynt am y cynnig ar yr adeg pan fyddent yn gwneud eu cais am le Meithrin ar gyfer mis Medi 2020.

Cafodd unrhyw gwestiynau a sylwadau a wnaed drwy gydol yr ymgynghoriad eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Cafodd yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a chafodd ei ystyried pan benderfynodd y Cyngor ar y ffordd ymlaen.

Gwnaeth y cyfnod hysbysiad statudol alluogi pobl i fynegi eu barn i gefnogi neu wrthwynebu'r cynigion. Oherwydd na chafwyd gwrthwynebiadau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylid bwrw ymlaen neu beidio.

## 11 Crynodeb o Effaith (i'w gynnwys mewn unrhyw adroddiad)

### **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i ddarparu cyfleusterau Canolfan Adnoddau Dysgu ym mhob adeilad ysgol newydd gan fod hyn yn cefnogi agwedd fwy cynhwysol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Hefyd mae awydd creu sefyllfa lle bod o leiaf un Ganolfan Adnoddau Dysgu ym mhob clwstwr o ysgolion cynradd. Nid oes darpariaeth o'r fath ar hyn o bryd o fewn y clwstwr presennol o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd.

Ystyrir bod yr ymagwedd hon yn fwy cyson â Deddf Cydraddoldeb 2010 na darparu lleoedd i ddisgyblion â chymorth mewn cyfleusterau amgen neu ysgolion arbennig.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o addysgu disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol lle na ystyrir bod addysg brif ffrwd llawn amser yn briodol, mae gan yr Awdurdod Lleol nifer o gyfleusterau Ganolfan Adnoddau Dysgu ledled Casnewydd, mewn ysgolion unigol. Mae'r Canolfannau Adnoddau Dysgu hyn wedi'u hatodi i ysgolion prif ffrwd ac yn darparu amgylcheddau dysgu sydd â llai o ddisgyblion a mwy o oedolion. Mae'r Canolfannau Adnoddau Dysgu'n generig yn eu natur ac yn bodloni anghenion disgyblion sydd ag ystod o anawsterau. Yr ethos yw rhoi cymorth targedig i ddisgyblion unigol ar sail eu hanghenion gyda'r bwriad o integreiddio'r disgybl yn ôl i ddosbarthiadau prif ffrwd fel sy'n briodol. Mae galw parhaus am leoliadau cynradd y CAD ar draws Casnewydd ac i sefydlu CAD gyfrwng Cymraeg.

Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth CAD o'r fath yn y clwstwr cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnig hwn nid yn unig o fudd i ddisgyblion sy'n byw'n lleol, ond gall disgyblion ar draws y ddinas gael mynediad ato i gefnogi anghenion addysgol penodol mewn amgylchedd priodol a diogel yn yr iaith Gymraeg.

### **Y Gymraeg**

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i ddarparu digon o gyfleusterau cyfrwng Cymraeg ar draws Casnewydd i gefnogi ac ysgogi'r galw am addysg Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar draws Casnewydd, er nad oes un o ysgolion cynradd Cymraeg yng Ngorllewin y ddinas. Drwy sefydlu'r ysgol ar y safle dros dro yng Nghaerllion ac yna ar y safle parhaol ym Mhligwenlli, bydd modd i ddisgyblion fynd i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn fwy lleol i'w cartref a bydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r disgyblion ddewis Ysgol Gymraeg.

Ar hyn o bryd mae gan Gasnewydd 112 o leoedd mewn Dosbarthiadau Derbyn ar gael rhwng y 3 ysgol gynradd Gymraeg bresennol a bydd 60 o leoedd ychwanegol ar gael yn y ddarpariaeth ychwanegol.

Mae'r cynnig yn cynrychioli ymrwymiad cryf i siarter Llywodraeth Cymru, 'Cymraeg 2050', ac mae'n cefnogi strategaeth 5-mllynedd y Cyngor i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd.

## **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

- **Tymor hir: pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd i fodloni anghenion tymor hir:**  
Mae'r cynnig yn darparu ateb tymor hir ar gyfer tyfu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Casnewydd gan roi cyfleoedd pellach i ddisgyblion fynychu addysg cyfrwng Cymraeg a galluogi disgyblion i fynychu ysgol sy'n lleol i'w cyfeiriad cartref. Bydd y cynnig hefyd yn cynnig darpariaeth CAD cyfrwng Cymraeg a hon fydd y CAD cyfrwng Cymraeg gyntaf yng Nghasnewydd sy'n gwasanaethu anghenion tymor byr ac sy'n darparu digon o le ar gyfer anghenion y dyfodol.
- **Atal: Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu ein helpu i fodloni'n hamcanion:**  
Bydd y cynnig o fudd i ddisgyblion ar draws y ddinas wrth i gyfleusterau cyfrwng Cymraeg ychwanegol gael eu darparu i helpu gyda'r galw presennol a'r dyfodol am addysg cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth CAD cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd, felly bydd y cynnig hwn yn atal problemau posibl nad oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael os gofynnir amdani.
- **Integreiddio: Ystyried sut y bydd y cynigion yn effeithio ar ein hamcanion llesiant, ein nodau llesiant, amcanion eraill neu amcanion cyrff cyhoeddus eraill:**  
Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol a chafodd ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Chymru â chymunedau cydlynol" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Llesiant eraill. Hefyd, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd "I wella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".
- **Cydweithredu: Ydych chi wedi ystyried sut y gall cydweithredu gydag unrhyw berson arall neu unrhyw ran arall o'n sefydliad helpu i fodloni ein hamcanion llesiant:**  
Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol gyda'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a chafodd ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith.
- **Cynnwys Pobl: Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y Ddinas a wasanaethwn:**  
Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol gyda'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a chafodd ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith.